Adroddiad Blynyddol Eglwys Efengylaidd Bangor – Ebrill 2021

Dibenion Eglwys Efengylaidd Bangor yn ôl ein cyfansoddiad yw:

- Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn unol â'n Cyffes Ffydd, yn bennaf, ond nid yn unig, drwy gyfrwng cyhoeddi negeseuon Cristnogol o natur efengylu a dysgu.
- Hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn ardal Bangor yn bennaf ond nid yn unig, er budd y cyhoedd drwy gynnal cyfarfodydd pregethu ac efengylu; cyfarfodydd gweddi ac astudiaethau; darlithiau; cynhyrchu neu ddosbarthu llenyddiaeth ar y ffydd Gristnogol er hysbysu eraill am hanfodion y ffydd Gristnogol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi llwyddo i gyrraedd y dibenion hyn mewn sawl ffordd.

Bu'r amgylchiadau yn wahanol oherwydd y pandemig, a'r rheolau cysylltiedig â hyn sydd wedi ein gorfodi i weithredu mewn modd gwahanol. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'n gweithgareddau trwy gyfrwng y we, a gwariwyd ar dechnoleg er mwyn cyflawni'r gwaith hwn.

Rydym wedi cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd bob Sul, sy'n cynnwys Ysgol Sul i'r plant trwy gyfrwng y we, a gwasanaethau o addoliad a phregethu wedi eu darlledu ar YouTube a thrwy gyfrwng Zoom. Ers Mawrth 21ain cynhaliwyd ein gwasanaeth bore Sul yng Nghapel y Ffynnon, gyda mesurau diogelwch i sicrhau ein bod yn cadw at reolau diogelwch y wlad. Cynhaliwyd astudiaeth i'r bobl ifainc ar nos Sul, a bu nifer o chwiorydd yr eglwys yn cyfarfod ar nosweithiau yn yr wythnos i astudio'r Beibl. Yn ogystal â hyn rydym wedi parhau i gynnal gweithgareddau yn ystod yr wythnos: Cyffro, sef clwb i blant oed ysgol gynradd, a Selar ar gyfer plant oed ysgol uwchradd. Yn wythnosol cynhaliwyd cyfarfod gweddi ar gyfer yr aelodau. Yn fisol cynhaliwyd Brecwast i'r Merched, a Brecwast Dynion. Parhaodd ein gweinidog i baratoi defosiynau byrion ar YouTube, gyda 195 wedi eu darlledu yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd gweithgareddau arbennig yn ogystal â hyn, sef "Cwrs y Beibl" – cyfres o wyth o sesiynau yn rhoi arolwg o'r Beibl. Gan na fedrem wahodd plant atom ar gyfer ein cyflwyniadau arferol, paratowyd fideo yn cyflwyno hanes y Nadolig: "Yr Anrheg Nadolig", Fis Rhagfyr , a fideo arall adeg y Pasg – "Cracio'r Pasg", a'u danfon i ysgolion iddyn nhw fedru eu defnyddio. Fis Rhagfyr fe gynhaliwyd oedfa Carolau yng Ngolau Cannwyll dros y we a rhannwyd copïau o gylchgrawn "Holi" oedd wedi ei baratoi ar gyfer y Nadolig.

Rydym wedi cynnal hyfforddiant diogelu ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion bregus yn yr eglwys, a bu rhai yn adolygu polisi diogelwch yr eglwys. ac mae pwyllgor wedi bod yn ystyried yr amodau i ni fedru ymgasglu gyda'n gilydd eto yn ddiogel. Paratowyd asesiadau risg ar gyfer ein holl weithgareddau.

Estynnwyd at y Gymdeithas leol trwy gynnal teithiau cerdded i Ddysgwyr y Gymraeg, ac ym mis Tachwedd cynhaliwyd noson Cwis Tearfund lle codwyd arian tuag at y gymdeithas sy'n cynorthwyo tlodion yn y byd.

Rydym wedi hyrwyddo'r ffydd Gristnogol y tu hwnt i'r sefyllfa leol trwy i'n gwasanaethau a defosiynau arlein fod yn agored i eraill ymuno gyda rhai ar bedwar

cyfandir yn manteisio ar ein darpariaeth. Rydym hefyd wedi cefnogi Heledd Job, Elin Bryn a Lydia Adams yn ariannol ac mewn gweddi. Rydym wedi rhyddhau ein gweinidog ar adegau i gynorthwyo Cristnogion yn Nwyrain Ewrop drwy gynadleddau, seminarau a mentora ar y we.

Er nad oedd modd cyfarfod yn y capel dros y rhan fwyaf o'r flwyddyn rydym wedi ceisio cynnal yr adeiladau yn briodol gan wario ar adnewyddu'r rendrad ar un gornel o'r adeilad, a rhoi dwy ffenestr newydd yn wyneb pydredd.

Rydym wedi llwyddo i gynnal y gwaith yn ariannol yn bennaf trwy roddion gwirfoddol yr aelodau.

Eglwys Efengylaidd Bangor

Mantolen y flwyddyn Diweddu 31 Mawrth 2021

Cronfa Gyffredinol

Incwm 2020- 2021	£49,456.07
Costau 2020- 2021	£56,835.74
Incwm llai Costau	-£7,379.67
Mewn Llaw 31/03/2020	£23,418.08
Incwm llai costau 2020/21	-£7,379.67
Mewn Llaw 31/03/2021	£16,038.41
Cynrychiolwyd gan :	
Cyfrif Cyfredol 31/03/2021	£2,959.35
Cyfrif Cadw 31/03/2021	£13,079.06
	£16,038.41

Cronfa Newydd -cyfrif cadw

Mewn Llaw 31/03/2020	£16,998.30
UFM Cronfa Banabas 2020-21	£0.00
Mewn Llaw 31/03/2021	£16,998.30

Cronfa Adeilad

Mewn Llaw 31/03/2020	£1,591.96
Incwm 2020- 2021	£3,720.05
Costau 2020- 2021	£2,860.82
Mewn Llaw 31/03/2021	£2,451.19

Cyfrif banc @31/3/21	£2,451.19

Eglwys Efengylaidd Bangor Mantolen 2020-21

Cronfa Gyffredinol

		£
Derbyniadau		
	Casgliadau	0.00
	Rhoddion Cymorth Arch. Banc	32,508.00
	Rhoddion Eraill	3,220.00
	Ad-daliad Treth	8,407.00
	Cyfraniad I prynu teledu	350.00
	Rhoddion i Cronfa Caledi	2,250.00
	Rhoddion i Heledd	2,700.00
	Llog (Cadw)	21.07
	Cyfanswm Derbyniadau	**49,456.07**
Taliadau		
Y Weinidogaeth	Cyflog	30,900.00
	Lwfansau	660.00
	Ad-daliadau eraill (ffon, dyblygu, deunydd swyddfa)	253.00
	Cwrs y Beibl	59.89
	Copiau o HOLI a sticeri	150.00
	Costau Teithio	78.75
	Zoom	124.78
	Yswiriant Cenedlaethol Cyflogwr	3,051.96
	Llai Lwfans cyflogi	-3,051.96
	Pensiwn (cyfraniad yr Eglwys)	3,139.80
	Pregethwyr gwadd	440.00
	Gweinyddol	78.38
		35,884.60
Costau Eraill		
	Amddiffyn plant (CCPAS/DBS)	189.00
	Gwaith y plant	273.04
	Costau Cyfreithiol	120.00
	Postio taflenni pleidleisio	45.50
	Gwasanaethu system gwresogi	144.00
	Dehumidifier	109.99
	Amddiffyn Tan	40.50
	BT- Llinell band eang	536.80
	Menai Cleaning Services ac offer PPE	510.90
	Offer technegol newydd I ddarlledu oedfaon	1,981.41
	Claytons-Gwaith ar Adeilad	9,000.00
		12,951.14
Taliadau Eraill		
	UFM-Heledd Job	4,800.00
	UCCF-Elin Williams	1,600.00
	UFM - Lydia Adams	1,600.00
		8,000.00
	Cyfanswm Taliadau	**56,835.74**
	Derbyniadau tynnu Taliadau	***-7,379.67***

Cronfa Adeilad 2020-21

	£	£
Nat West PLC	1,591.96	
Cyfanswm Gronfa @ 31/3/20		**1,591.96**
Incwm 2020-2021		
Derbyniadau gan aelodau	2,520.00	
Llog Banc	0.05	
Gift Aid	1,200.00	
Cyfanswm incwm 2020-2021		**3,720.05**
Costau 2020-2021		
–		
Costau cynnal a cadw Capel y Ffynnon		
Dwr	234.96	
Trydan	837.00	
Nwy	1,031.00	
Yswirant	757.86	
Cyfanswm Costau 2020-2021		**2,860.82**
Cyfanswm yn y gronfa adeilad @31/3/21		**2,451.19**
Cyfrifon Banc		
Nat West PLC		**2,451.19**

Awgrymiadau ar gyfer Cyllideb 2021-22

	Cyflog DMJ Yn codi 0% £	Cyflog DMJ Yn codi 1% £	Cyflog DMJ Yn codi 3% £
Incwm Tebygol			
Rhoddion Cymorth Archeb Banc	33,000.00	33,000.00	33,000.00
Ad daliad treth	9,000.00	9,000.00	9,000.00
Casgliadau	2,000.00	2,000.00	2,000.00
Derbyniadau eraill	1,000.00	1,000.00	1,000.00
Cyfanswm Incwm	**45,000.00**	**45,000.00**	**45,000.00**
Y Weinidogaeth			
Cyflog	30,900.00	31,200.00	31,800.00
Lwfansau	900.00	900.00	900.00
Costau Teithio	200.00	200.00	200.00
Costau Eraill	250.00	250.00	250.00
Cynhadleddau	300.00	300.00	300.00
Ysw Genedlaethol Cyflogwr	0.00	0.00	0.00
Pensiwn	3,000.00	3,000.00	3,000.00
Cydnabyddiaeth	750.00	750.00	750.00
Cyfanswm y Weinidogaeth	**36,300.00**	**36,600.00**	**37,200.00**
Eraill			
Efengylu	1,000.00	1,000.00	1,000.00
UFM-Heledd	4,800.00	4,800.00	4,800.00
Rhoddion Eraill	1,200.00	1,200.00	1,200.00
Costau eraill	2,500.00	2,500.00	2,500.00
Cyfanswm Eraill	**9,500.00**	**9,500.00**	**9,500.00**
Cyfanswm Costau	**45,800.00**	**46,100.00**	**46,700.00**
Incwm llai costau (colled)	**(800.00)**	**(1,100.00)**	**(1,700.00)**

Eglwys Efengylaidd Bangor

Mantolen y flwyddyn Diweddu 31 Mawrth 2021

Cronfa Gyffredinol

Incwm 2020- 2021	£49,456.07
Costau 2020- 2021	£56,835.74
Incwm llai Costau	-£7,379.67
Mewn Llaw 31/03/2020	£23,418.08
Incwm llai costau 2020/21	-£7,379.67
Mewn Llaw 31/03/2021	£16,038.41
Cynrychiolwyd gan :	
Cyfrif Cyfredol 31/03/2021	£2,959.35
Cyfrif Cadw 31/03/2021	£13,079.06
	£16,038.41

Cronfa Newydd -cyfrif cadw

Mewn Llaw 31/03/2020	£16,998.30
UFM Cronfa Banabas 2020-21	£0.00
Mewn Llaw 31/03/2021	£16,998.30

Cronfa Adeilad

Mewn Llaw 31/03/2020	£1,591.96
Incwm 2020- 2021	£3,720.05
Costau 2020- 2021	£2,860.82
Mewn Llaw 31/03/2021	£2,451.19
Cyfrif banc @31/3/21	£2,451.19

Archwiliwyd a chafwyd yn gywir : .....

Dyddiad : 04-11-2021